

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg:
Ysbyty Cefn Coed, Celyn;
Gwelfor; Heddfan; ISIS;
Tegfan; Wards 2, 4 a F

17-20 Tachwedd 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfarthrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	8
	Safonau Craidd	8
	Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl	25
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	26
6.	Y Camau Nesaf.....	28
	Atodiad A.....	29

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn ymdrin ag ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu yn rhan allweddol o'n hasesiadau o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau yn cyflawni eu cyfrifoldebau drwy:

- Fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Cydymffurfio, fel y bo'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Ffocws arolygiadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Cael gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- Derbyn gofal a thriniaeth gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- Cael cymorth i fod mor annibynnol ag y bo modd
- Cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Cael cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i gyrraedd eu potensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael cymorth i gyflwyno pryderon a chwynion
- Cael cymorth i gynnal perthnasau â'u teulu a ffrindiau os ydynt am wneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu y mae AGIC yn ei ddefnyddio i ddarparu arolygiadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau helaeth â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigwr cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau â staff uwch gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiâu allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddi
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau i gleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithredu Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud â rhwystro, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Trosolwg o drefniadau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd bwyd
- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

¹ Mae'r Mesur yn ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal, a chydlynu o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd a chanddo brofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o safonau'r gofal y mae cleifion yn eu derbyn

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu dirybudd ag Ysbyty Cefn Coed, Abertawe, ar noswaith 17 Tachwedd 2014 a thrwy'r dydd ar 18, 19 a 20 Tachwedd 2014.

Mae Cefn Coed yn ysbyty seiciatrig sy'n cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM), ac mae'n darparu gofal seiciatrig cyffredinol i oedolion a'r henoed.

Yn ystod y pedwar diwrnod, gwnaethom adolygu wyth o wardiau, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd lleig, a phum aelod o staff AGIC.

Roedd tîm rheoli'r safle a thîm rheoli ehangach y bwrdd iechyd yn gefnogol i ymweliad arolygu AGIC.

Rhoddodd yr holl staff ym mhob maes, gan gynnwys staff nyrsio, meddygol, seicoleg a therapi, argraff eu bod yn canolbwyntio ar ofal a lles cleifion. Gwnaeth AGIC arsylwi ar lawer o ryngweithio parchus a gofalgwr rhwng staff gofal iechyd a chleifion ym mhob rhan o'r ysbyty.

Mae Ysbyty Cefn Coed yn darparu gofal i fwy na 200 o gleifion ar draws hen safle amrywiol iawn yn cynnwys hen adeiladau a chyfleusterau gan fwyaf, ac un rhan sydd wedi'i hadeiladu o'r newydd. Hyd yn hyn, mae Uned Gwelfor (cyfleuster adsefydlu a chanddo 18 o welyau), ynghyd â dau dŷ camu i lawr, a chyfleuster asesu estynedig â 60 o welyau ar gyfer pobl hŷn o'r enw Ysbryd y Coed, wedi cael eu comisiynu fel rhan o'r broses o ddatgomisiynu'r ysbyty Edwardaidd hwn. Bydd cyfleuster diogelwch isel newydd â 28 o welyau yn cael ei gomisiynu'n fuan ar safle Ysbyty Glan-rhyd hefyd, a bydd hyn yn golygu y bydd modd cau'r Gwasanaeth Cymorth ac Ymyrraeth Ddwys (ISIS) a Ward F ar safle Ysbyty Cefn Coed. Bydd Ward 5 hefyd yn cael ei throsglwyddo i wasanaeth Gofal Dwys Seiciatrig estynedig yn Ysbyty Tywysoges Cymru tua diwedd mis Mawrth 2015

4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad o Ysbyty Cefn Coed ar draws wyth o wardiau. Canfuom fod llawer o le i wella, ond roeddem yn falch i nodi rhai canfyddiadau cadarnhaol.

Roedd adborth cleifion a staff ynghylch bwyd a'r profiad bwyta yn amrywio o wael i dda, ac nid oedd yn gyson ar draws y wardiau y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd yr amgylchedd yn amrywio drwy gydol y wardiau y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd rhai wardiau'n olau ac yn awyrog, ac yn cynnwys dodrefn a ffitiadau newydd, tra bod amgylchedd wardiau eraill yn llai boddhaol ac yn ymylu ar esgeulustod, gyda dodrefn a ffitiadau a oedd wedi torri. Roedd gan rhai wardiau fynediad at nifer o ddisgyblaethau i ategu gofal a thriniaeth y cleifion, tra bod ychydig iawn o fewnbwn ar wardiau eraill.

Nododd AGIC ymrwymiad y staff i'r grŵp cleifion, er gwaethaf y ffaith nad oedd digon o staff ar rai wardiau. Nodwyd llawer o ewyllys da yn ystod ein hymweliad. Gwelwyd bod perthynas dda rhwng cleifion a staff yn ystod yr ymweliad, ac roedd y ffordd yr oedd llawer o'r staff yn croesawu ein hymweliad yn gadarnhaol.

Roedd morâl y staff yn arbennig o isel mewn rhai meysydd. Y rhesymau a nodwyd dros hyn oedd teimlad ymhlith y staff nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi, y trefniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng uwch reolwyr a staff y ward, a mecanweithiau cynllunio a chomisiynu'r uwch reolwyr a'r bwrdd iechyd yn ymwneud â dyfodol y gwasanaeth. Mae cynlluniau yn ymwneud â'r ysbyty'n newid yn aml, a chanlyniad hyn yw camgyfathrebu.

Roedd y rhaglen hyfforddiant gofynnol i staff yn gynhwysfawr, a nodwyd cyfraddau presenoldeb da, gan sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau angenrheidiol i sicrhau gofal effeithiol i'r cleifion.

Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a chymunedol a welsom ar draws y wardiau y gwnaethom ymweld â nhw yn gymysg. Roedd enghreifftiau o rai wardiau'n cynnig gweithgareddau da, ac roedd y rhain yn cael eu cefnogi gan gydgyssylltwyr gweithgareddau a staff therapi galwedigaethol. Prin oedd y gweithgareddau a oedd ar gael ar wardiau eraill. Rhoddwyd gofal cleifion dan anfantais bellach o ganlyniad i ddiffyg staff, felly nid oedd gan rai wardiau amserlen gyson o weithgareddau ystyriol.

Cafwyd pryderon ynghylch trefniadau llywodraethu a phrosesu archwilio'r bwrdd iechyd, yn enwedig o ran staffio a chynnal a chadw. Roedd y broses o nodi risgiau a'r broses o uwchgyfeirio pryderon yn yr ysbyty yn wan, ac roedd rhai

materion nad ymdriniwyd â nhw am gyfnod sylweddol. Gofynnodd AGIC am sicrwydd ar unwaith gan y bwrdd iechyd y byddai'n gwneud gwelliannau i lefelau staffio a gwaith cynnal a chadw.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Ward Celyn

Mae Ward Celyn yn un o dair ward a adeiladwyd o'r newydd; fe'i hadeiladwyd i'r pwrpas er mwyn trin cleifion benywaidd hŷn â dementia. Roedd yr amgylchedd yn lân a chynnes, ac roedd digon o le. Roedd y dyfeisiau ar y ward mewn cyflwr da ac yn gweithio, ac roedd y dodrefn o safon dda. Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda chyfleusterau *en suite*. Roedd digon o le yn yr ystafelloedd gwely i'r cleifion allu storio eu heiddo personol, ac roedd modd iddynt bersonoli'r ystafelloedd â'u lluniau ac eiddo eu hunain. Nid oedd modd cau'r paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely o'r tu mewn, a gallai hyn gyfyngu felly ar allu'r cleifion i gael preifatrwydd yn eu hystafelloedd gwely.

Mae gan Ward Celyn ei gardd/gofod awyr agored ei hun i'r cleifion ei ddefnyddio, ac roedd yn lân ac yn ddymunol. Roedd cyfleusterau ysmegu ar gael i'r cleifion, gan gynnwys cysgodfa a biniau.

Roedd lleoedd penodol i'r cleifion gwrdd ag aelodau teulu a chyfeillion yn breifat. Nid oedd ffôn talu ar y ward at ddefnydd y cleifion, ond roedd modd i'r cleifion ddefnyddio ffôn y ward a ffonau symudol i gadw mewn cyswllt ag aelodau teulu a chyfeillion.

Roedd diffyg gwybodaeth ysgrifenedig ar y ward, yn benodol yn ymwneud â gwasanaethau eirioli, ac er bod gan y cleifion weithwyr cymdeithasol, nid oedd eiriolaeth reolaidd yn rhan o hyn.

Roedd y drws tân ar Ward Celyn dan glo, ac felly ni fyddai'n bosibl dianc yn ddiogel pe bai'r larwm yn canu. Roedd y clo magnetig yn ddiffygiol, a hysbyswyd y staff cynnal a chadw amdano peth amser yn ôl. Fodd bynnag, gwnaethom wirio ddwywaith yn ystod ein harolygiad, ac roedd yr allanfa dân yn dal i fod ar glo. Anfonwyd llythyr gan AGIC at y bwrdd iechyd i gael sicrwydd ar unwaith nad oedd y drws tân yn dal i fod dan glo a bod y nam arno wedi'i atgyweirio.

Roedd yn anodd i'r staff arsylwi ar gleifion ar y ward oherwydd maint a chynllun y ward. Cafodd y mater hwn ei waethgu gan ddiffyg staff, yn enwedig yn y nos. Adeg ein hymweliad, roedd un nyrs gofrestredig a dau weithiwr cymorth gofal iechyd ar ddyletswydd, yn gofalu am 17 o gleifion, gan wneud y gwaith arsylwi'n anodd iawn.

Yn ystod y dydd, roedd lefelau staffio ychydig yn uwch, ond nid yn ddigon uchel i ddarparu ar gyfer anghenion yr holl gleifion. Roedd hyn yn cyfyngu ar yr amser ar gyfer gofal therapiwtig a gofal adsefydlu/galluogi i gleifion, a oedd ar y cyfan yn derbyn gofal fel grŵp mawr mewn un man. Prin oedd y gweithgareddau therapi ac adsefydlu/galluogi, ac nid oedd llawer o amrywiaeth o ran swyddi gofal iechyd i ddarparu rhaglen adsefydlu/galluogi fwy cyfannol i helpu gwaith asesu parhaus a'r broses o ryddhau cleifion i leoliad yn y gymuned. Mae gan y ward lawer o botensial i gael ei datblygu fel canolfan ragoriaeth ar gyfer gofal iechyd meddwl i oedolion hŷn, yn seiliedig ar yr amgylchedd sydd wedi'i adeiladu i'r pwrpas ac ymrwymiad y staff i ofal ar gyfer oedolion hŷn. Fodd bynnag, nid yw'r lefelau staffio presennol na'r mewnbwn amlbroffesiynol anghytbwys yn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu.

Mae myfyrwyr nyrsio'n gwneud lleoliad ar y ward yn ystod eu cwrs gradd nyrsio. Er bod y ward yn darparu amgylchedd dysgu ardderchog er mwyn i fyfyrwyr ennill sgiliau hanfodol yn ymwneud â gofal henoed ac iechyd meddwl oedolion hŷn, roedd nifer gyfyngedig y staff nyrsio cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ei wneud yn her i oruchwylio'r myfyrwyr hyn. Fodd bynnag, roedd y staff yn gyfeillgar ac yn agored, felly nid oedd y myfyrwyr yn ofni gofyn cwestiynau a fyddai'n eu helpu i ddysgu, ac roedd pob un ohonynt yn teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad.

Roedd gan y ward becyn gwybodaeth dysgwyr i fyfyrwyr nyrsio, a gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arferion da.

Nid oedd clychau galw yn yr ystafelloedd ymolchi na'r ystafelloedd gwely, ond roedd gan y gwelyau larymau synhwyraidd sy'n gwneud sŵn uchel i dynnu sylw'r staff. Roedd gan un claf gloch law i alw'r staff pe bai angen cymorth arno.

Ward Tegfan

Roedd amgylchedd Ward Tegfan yn ddirywiedig i lefel annerbyniol, ac roedd angen iddi gael ei hatgyweirio a'i hailaddurno. Roedd y dodrefn yn flêr ac roedd angen ei atgyweirio, ond roedd digon ohono. Nid oedd digon o lenni ar gyfer pob ffenestr, felly nid oedd gan y cleifion ddigon o breifatrwydd ac urddas.

Roedd panel arsylwi ar ddrws un o'r ystafelloedd gwely wedi torri, ac roedd angen ei atgyweirio. Roedd y panel wedi torri ers peth amser. Defnyddiwyd tywel i orchuddio'r panel a oedd wedi torri, er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion, ac ar adeg ein hymweliad, roedd papur yn cael ei ddefnyddio i orchuddio'r panel. Roedd y rheiddiaduron yn oer, ac roedd y cleifion yn cwyno bod y ward yn oer. Dywedodd y staff wrthym fod y problemau cynnal a chadw

hyn wedi cael eu hadrodd, ond dywedodd yr adran ystadau y byddai atgyweirio'r problemau hyn yn wastraff arian gan fod y ward yn mynd i gau yn 2015. Nid yw'r bwrdd iechyd yn rhannu'r farn hon, ond nid oedd yr amgylchedd yn hybu lles y cleifion.

Ward F

Mae'r ward wedi elwa ar ddodrefn newydd yn ddiweddar, gan gynnwys oergell a ffwrn newydd ar gyfer y gegin therapi galwedigaethol, a soffas a chadeiriau newydd ar gyfer yr ystafell fwyta. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, mae materion yn ymwneud â rheoli heintiau yn cael eu datrys wrth i'r dodrefn newydd gyrraedd, oherwydd bod deunydd y clustogwaith yn anhreiddiadwy.

Roedd yr ystafelloedd ymolchi yn lân ac mewn cyflwr da, ond mae angen ailaddurno'r ward yn gyffredinol.

Fe'n hysbyswyd bod llenni ar gyfer y ward wedi cael eu hanfon at y golchdy i'w glanhau, ond roeddent wedi mynd ar goll a heb ddychwelyd ers pum mis. Ar adeg ein hymweliad, roedd y llenni yn ôl ar y ward ac yn rhoi'r preifatrwydd ac urddas sydd eu hangen ar gleifion. Nid yw colli'r llenni am gyfnod mor hir yn dderbyniol. Dylid dychwelyd unrhyw ffabrig dodrefnu sy'n cael ei hanfon i'w glanhau o fewn amserlen dderbyniol er mwyn cynnal amgylchedd priodol i'r cleifion.

Gwasanaethau Cymorth ac Ymyrraeth Ddwys (ISIS)

Roedd amgylchedd y ward yn olau ac awyrog a chanddo lolfa agored a man bwyta. Fodd bynnag, roedd y cadeiriau ar y ward yn frwnt ac wedi staenio. Roedd corlan y nyrsys wedi'i lleoli yn y lolfa, ac roedd cleifion eraill yn gallu gweld bwrdd yn y swyddfa a oedd yn arddangos gwybodaeth cleifion. Ar adeg ein hymweliad, fe'n hysbyswyd bod y cleifion wedi cydsynio i hyn. Fodd bynnag, mae'n hanfodol peidio ag arddangos gwybodaeth bersonol i bobl eraill ei gweld. Dylid trin gwybodaeth cleifion i gyd yn gyfrinachol. Roedd mynediad i ofod awyr agored diogel i'r cleifion er mwyn iddynt wneud ymarfer corff a chael awyr iach.

Ward Heddfan

Roedd Ward Heddfan yn ward rhyw cymysg a oedd yn darparu gofal i bobl hŷn â dementia. Roedd gan y ward lolfa agored fawr a man bwyta. Roedd gan y man bwyta gyferbyn â'r lolfa ranwyr a oedd yn ei wahanu o'r lolfa. Roedd y man bwyta wedi'i addurno fel caffi, ac roedd digonedd o fyrddau a chadeiriau. Gyferbyn â'r man hwn roedd mwy o seddau, a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau.

Roedd ystafell ysmegu fach drws nesaf i'r lolfa a oedd yn arwain at iard fach awyr agored. Mae'r iard yn dibynnu ar ewyllys da'r staff i gynnal a chadw'r lle. Ar adeg ein hymweliad, roedd angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar yr iard a fyddai'n gwella ei hymddangosiad, megis chwynnu. Roedd y cerrig palmant yn anwastad, ac nid yw hyn yn dderbyniol ar gyfer y grŵp cleifion hwn. Argymhellir y dylai'r staff cynnal a chadw/ystadau helpu staff y ward i gynnal man awyr agored dymunol i'r cleifion.

Roedd gan y ward ystafelloedd gwely ar ffurf noswylfeydd, gyda chyfanswm o dair ystafell, a phob un ohonynt yn cynnwys pedwar gwely. Roedd llenni'n rhoi preifatrwydd i bob gwely, ac roedd cwpwrdd dillad a chloer i storio dillad ac eiddo. Nid oedd clychau galw yn yr ystafelloedd ymolchi, er bod gan bob gwely ddillad gwely synhwyrdd a fyddai'n seinio larwm i rybuddio'r staff.

Nid oedd gan y ward gyfleusterau en suite, ond roedd cyfleusterau toiled a chawod benodedig ar gael. Roedd bath â chymorth ar gael hefyd i'r cleifion os oedd angen yr opsiwn hwn. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y toiled yn gweithio, ac nid oedd wedi bod yn gweithio ers peth amser. O ganlyniad i'n hymweliad a'n hymyrraeth, atgyweiriwyd y toiled.

Roedd gan y ward olchdy penodedig, ond fe'n hysbyswyd bod y peiriant golchi wedi torri, a'i fod wedi torri ers dwy flynedd. Mae peidio

â chael cyfleusterau hanfodol sy'n gweithio ar y ward yn annerbyniol, gan effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl y cleifion. Rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder.

Roedd trefniadau storio cyfarpar yn anniben, a gwelwyd canllawiau gwelyau ar y llawr ac ar welyau nad oeddent yn cael eu defnyddio. Mae angen manau priodol i storio cyfarpar er mwyn sicrhau nad yw'r cleifion neu'r cyfarpar yn cael eu niweidio.

Ward 4

Mae Ward 4 yn ward derbyniadau aciwt a chanddi 14 o welyau. Roedd y lolfa wedi'i gosod allan mewn ffordd heriol – roedd rhai manau heb lenni, gan gynnwys ystafelloedd gwely cleifion. Roedd y cyfleusterau ymolchi i gleifion yn wael, a dim ond dwy gawod sylfaenol ac un bath oedd ar gyfer pob un o'r 14 o gleifion. Roedd gan un o'r cawodydd ferddwr, ac roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw arno. Dywedodd y cleifion a'r staff fod y broblem hon wedi bodoli ers sawl mis. Roedd tymheredd y dŵr o'r ddwy gawod a'r tapiau poeth yn amrywio, a dywedwyd wrthym fod rhedeg bath poeth yn gallu cymryd cryn dipyn o amser. Dywedodd y cleifion eu bod wedi cael anawsterau'n cyrraedd y bath gan nad oes rheiliau canllaw ar gael i'w defnyddio. Byddai hyn yn ei wneud yn

anodd neu'n amhosibl i gleifion â lefelau symudedd cyfyngedig. Nid oedd llenni ar ffenestri rhai ystafelloedd gwely ac ym mannau eraill y cleifion. Nid oedd yr amgylchedd yn ffafriol i les cyffredinol y cleifion, a dim ond rhai anghenion sylfaenol iawn oedd yn cael eu diwallu. Dywedwyd wrthym hefyd gan y staff a'r cleifion nad oedd yr wrn dŵr yn y gegin yn gweithio, na'r peiriant te/coffi ychwaith.

Dywedwyd wrthym nad oes digon o welyau a bod cleifion newydd wedi cael eu lletya dros dro ar y sofffa nes bod gwely ar gael. Gwnaethom nodi bod lefelau meddiannaeth bron wedi cyrraedd 200% yn ystod ein hymweliad, gan fod nifer sylweddol o gleifion yn absennol o'r ward am gyfnodau estynedig. Pe bai'r cleifion hyn yn cael eu galw yn ôl neu am ddychwelyd i'r ward, gallai hyn achosi problemau sylweddol i dîm y ward. Dywedwyd wrthym fod cleifion wedi aros ar soffas yn y lolfa dros nos pan nad oedd gwely ar gael. Dywedwyd wrthym hefyd fod y cleifion wedi cysgu yn yr ystafell fwyta o'r blaen, a bod papur yn cael ei ddefnyddio i atal pobl rhag gallu gweld drwy i'r ystafell fwyta. Mae'n glir nad yw hyn yn briodol. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd mai un o'i arferion cyffredin yw ystyried defnyddio gwelyau cleifion absennol os, ar ôl gwneud asesiad risg, ystyrir bod angen gwneud hyn i ddarparu gwasanaeth da i gleifion mewn angen.

Ward Gwelfor

Mae Ward Gwelfor yn ward adsefydlu dan glo ar gyfer cleifion gwrywaidd. Adeiladwyd yr uned yn 2010, ac roedd yn ymddangos yn olau ac yn awyrog. Mae'r holl ystafelloedd gwely yn rhai sengl, ac mae cyfleusterau storio ar gyfer dillad ac eiddo personol. Roedd gan bob ystafell wely gyfleusterau en suite.

Mae gan y ward ei gardd ei hun at ddefnydd y cleifion os oes eisiau awyr iach arnynt. Nid oedd cysgodfa ysmegu ar gael, a dywedodd y staff a'r cleifion y byddent yn hoffi pe bai gan y ward un o'r rhain.

Roedd yr ystafell fwyta yn ofod mawr a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau i'r cleifion. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd digon o gadeiriau ar gael yn yr ystafell fwyta pe bai pob un o'r 18 o gleifion yn dymuno bwyta gyda'i gilydd. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i adael i'r cleifion gymdeithasu gyda'i gilydd.

Nid oedd ffôn talu ar gael ar y ward. Os yw'r cleifion am gysylltu ag aelodau o'u teulu neu gyfeillion, maent yn defnyddio ffôn y swyddfa.

Mae angen rhywfaint o waith addurno ar yr amgylchedd yn gyffredinol, oherwydd bod cleifion wedi ysgrifennu ar rai o'r waliau. Roedd angen i'r gegin therapi gael ei glanhau'n drylwyr, yn enwedig y ffwrn.

Argymhellion

Nodwyd nifer o faterion amgylcheddol yn ystod ein hymweliad, ac mae angen gweithredu yn eu cylch. Mae angen rhoi sylw ar unwaith i'r wardiau y bwriedir iddynt gael eu datgomisiynu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr amgylcheddau'n addas at y diben o ddiwallu anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Ni ddylai defnyddwyr gwasanaeth presennol orfod goddef amgylchedd gwael o ganlyniad i gynlluniau i ddatgomisiynu yn y dyfodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gwella i AGIC. Dylai amlinellu'n glir sut y bydd y materion yn ymwneud â'r amgylchedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn cael eu cywiro er lles y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Diogelwch

Roedd lefelau staffio ar draws y wardiau y gwnaethom ymweld â nhw yn destun pryder, a nodwyd nad oedd digon o staff. Yn ystod ein hymweliad nos, roedd gan Ward Heddfan un nyrs gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd ar ddyletswydd ar gyfer 11 o gleifion. Roedd llawer o'r cleifion ar ddihun ac yn eistedd yn y lolfâ. Fodd bynnag, yn ystod amser meddyginiaeth, byddai'r nyrs gofrestredig yn brysur, ac felly ni fyddai ar gael i gynorthwyo'r gweithiwr cymorth gofal iechyd pe bai angen cymorth arno. Roedd cael dau aelod o staff ar gyfer 11 o gleifion yn annerbyniol, ac roedd pob un o'r cleifion yn oedolion hŷn ag anghenion corfforol ac iechyd meddwl.

Roedd lefelau staffio ar draws yr ysbyty yn wael, ac nid oedd gan y system gapasiti i gael cymorth gan wardiau eraill pe bai digwyddiad mewn man arall, pe bai staff angen cymorth wrth ofalu am gleifion, neu pe bai materion yn codi yn ymwneud â diogelwch staff yn ystod digwyddiadau anrhwngwladwy. O ganlyniad i'r lefelau staffio gwael presennol, nid oedd y staff yn cael llawer o doriadau. Dangoswyd cryn dipyn o ewyllys da gan y staff o ran gwneud rhywfaint o waith cyflenwi. Mae gweithio â'r nifer isaf o staff heb gymorth ychwanegol yn peryglu diogelwch staff a chleifion. Dywedwyd wrthym hefyd bod gofyn i aelod o staff ar y ward geisio dod o hyd i staff cyflenwi i weithio sifft mewn achosion o salwch, neu os oedd claf ar lefel arsylwi uwch. Roedd hyn yn golygu bod un aelod o staff wedyn yn gorfod gadael y ward er mwyn gwneud ymholiadau dros y ffôn ynghylch staff cyflenwi posibl, gan leihau capasiti'r staff mwy byth.

Nodwyd yr amrywiaeth o ran oedrannau'r cleifion ar Ward 4 fel testun pryder posibl. Roedd oedrannau'r cleifion ar y ward yn amrywio o 18 oed i dros 70

blwydd oed. Nodwyd hyn fel problem ddiogelwch bosibl i bobl hŷn a oedd yn fwy bregus. Yn ddiweddar, ymosodwyd ar aelodau staff gan glaf iau, ac roedd pryderon y gallai cleifion hŷn ar y ward ddioddef ymosodiadau o'r fath.

Gofynnodd AGIC i'r bwrdd iechyd weithredu ar unwaith i gynnal adolygiad o'r lefelau staffio ar y ward er mwyn datrys y lefelau staffio anniogel presennol ac i sicrhau bod digon o staff i ddarparu gofal diogel.

Gwnaethom nodi nad oedd digon o'r staff yn gwisgo larymau personol tra oeddent ar ddyletswydd. Ar Ward Tegfan, nid oedd digon o larymau ar gael i'r staff. Ar adeg ein hymweliad, dim ond un o blith pedwar aelod o staff oedd â larwm personol.

Ar Ward Gwelfor, nid oedd y staff yn gwisgo larymau personol, ac fe'n hysbyswyd nad oeddent wedi eu defnyddio ers i'r ward agor. Fe'n hysbyswyd bod angen i'r staff gael dau larwm, a bod angen i'r brif nyrs gael tri – un larwm i roi gwybod iddi am leoliad y larwm a oedd yn canu, ac un larwm i'w ddiffodd. Roedd y system newydd hon yn gymhleth, a dywedodd y staff wrthym fod yr hen system yn well o lawer.

Fe'n hysbyswyd nad oedd larymau personol i'r staff ar gael yn hawdd ar Ward 4 ychwaith. Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau staff wedi gorfod prynu eu larymau personol eu hunain.

Yn ogystal, nid oedd staff diogelwch ar safle'r ysbyty yn ystod y nos. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ofni cael eu gofyn i fynd i ward arall, yn enwedig wardiau nad oeddent yn rhan o'r prif adeilad. Yn ogystal, gwelwyd aelodau o'r cyhoedd yn cerdded drwy safle'r ysbyty, a rhai ohonynt yn gwneud hyn yn hwyr yn y nos.

Argymhellion

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod y cleifion a'r staff ar bob ward yn ddiogel, a bod y gofal a ddarperir yn ddigonol.

Mae angen i'r bwrdd iechyd ddarparu larymau staff/personol i'r holl staff sydd ar ddyletswydd. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y larymau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio.

Mae angen cynnal adolygiad o ddiogelwch yr ysbyty er mwyn sicrhau bod diogelwch staff yn cael ei gynnal drwy gydol yr ysbyty a'i dir.

Y tîm amlddisgyblaethol

Dangosodd trafodaethau â staff o'r holl wardiau fod gwaith tîm amlddisgyblaethol yn digwydd a'i fod yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw, a wnaeth sylwadau cadarnhaol ynghylch gwaith tîm amlddisgyblaethol, ddweud bod gan yr holl aelodau staff lais, ac yr ystyrir eu barn broffesiynol, a bod pawb yn cyfrannu. Gwnaeth nifer o feddygon a siaradodd â ni sylwadau cadarnhaol ynghylch perthnasau gweithio amlddisgyblaethol, a'r ymrwymiad i'r grŵp cleifion.

Crybwyllwyd rhai pryderon ynglŷn â'r ffaith nad oedd therapyddion galwedigaethol yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol, ac roedd hyn am fod diffyg therapyddion galwedigaethol ar rai wardiau.

Gwnaeth y staff ar rai wardiau gwyno am ddiwylliant rhai disgyblaethau o fod yn ddiystyriol ac yn fychanol tuag at eraill yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn sgil ymyrraeth gan staff o wahanol ddisgyblaethau, siaradodd y staff am welliant sylweddol o ran agweddau a pherthnasau, a wnaeth arwain at gyfarfodydd cynhwysol i'r tîm amlddisgyblaethol, sy'n angenrheidiol o ran canlyniadau i gleifion.

Argymhelliad

Mae angen dull amlddisgyblaethol o wneud cynlluniau gofal a thriniaeth i'r cleifion. Mae angen i'r holl ddisgyblaethau angenrheidiol fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys cydgysylltwyr gofal. Mae angen i'r cyfarfodydd gael agwedd holistaidd at ofal a thriniaeth claf, felly dylai'r bwrdd iechyd roi trefniadau ar waith i sicrhau hyn.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd materion yn ymwneud â phreifatrwydd ac urddas yn amlwg drwy gydol rhannau hŷn yr ysbyty, lle mae'r amgylchedd yn wael ac yn anaddas ar gyfer lles cyffredinol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mynegodd y meddygon a'r staff nyrsio bryderon ynghylch Ward Heddfan. Nid yw'r cyfleusterau'n addas ar gyfer gofal yn bresennol, ac nid oedd ystafelloedd sengl na chyfleusterau en suite ar gael. Roedd yn glir bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu peryglu yn y cyfleusterau hyn.

Crybwyllodd staff a chleifion ar Ward 4 a Ward Tegfan broblemau tebyg – nid oedd llenni ar ffenestri rhai ystafelloedd gwely, gan beryglu urddas a pharch y cleifion. Dywedodd cleifion wrthym fod y drws i'r ystafell wely o hyd yn agor

gyda'r gwynt ers iddynt gyrraedd Ward Tegfan. I atal y drws rhag agor, mae'n rhaid i un claf roi tywel y tu ôl iddo. Roedd panel arsylwi'r ystafell wely wedi torri hefyd. Roedd y panel wedi'i orchuddio â phapur er mwyn cynnal rhywfaint o breifatrwydd ac urddas. Dywedodd y cleifion ar Ward 4 wrthym nad oeddent yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely eu hunain a'u bod yn pryderu am eu heiddo personol weithiau.

Argymhelliad

Mae angen rhoi sylw i'r meysydd a nodwyd yn yr adran hon ar unwaith. Ni ddylai preifatrwydd ac urddas unrhyw gleifion gael eu peryglu. Mae angen craffu rheolaidd i sicrhau y caiff gwelliant yn y maes hwn ei hybu a'i fod yn effeithiol.

Therapiau a gweithgareddau cleifion

Roedd y gweithgareddau a'r therapïau a oedd ar gael i gleifion yn amrywio ar draws yr holl wardiau y gwnaethom ymweld â nhw. Ar adeg ein hymweliad, gwelsom gleifion ar Ward Heddfan yn cymryd rhan mewn sesiwn celf a chrefft. Roedd un claf yn cael sesiwn un i un ag aelod o staff, ac roedd cleifion eraill yn defnyddio'r cyfarpar synhwyrdd a oedd ar gael ar y ward. Dywedodd y staff wrthym y cynhelir gweithgareddau bob dydd, fel arfer tair sesiwn y dydd. Nid oedd therapydd galwedigaethol neu gydgylltydd gweithgareddau ar y ward, felly darparwyd yr holl weithgareddau gan y staff. Roedd amserlen pedair wythnos ar gyfer gweithgareddau'r cleifion, ac maent yn cael eu hadolygu bob chwe mis er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r grŵp cleifion.

Roedd gan Ward F weithgareddau helaeth a rhaglen therapi i'r cleifion. Roedd therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymunedol ar gael, ond roeddent yn mynychu'r ward ar ddiwrnodau penodol. Mae therapyddion galwedigaethol yn treulio tua dau ddiwrnod a hanner ar y ward bob wythnos yn asesu cleifion, ysgrifennu adroddiadau, a chynorthwyo gydag apwyntiadau gofal iechyd y cleifion. Mae'r therapyddion galwedigaethol yn cwblhau asesiadau ac yn cynorthwyo'r cleifion yn eu holl weithgareddau byw dyddiol, ac roedd y rhain yn cynnwys siopa a choginio. Mae therapyddion galwedigaethol yn cadw mewn cyswllt â'r cleifion wedi iddynt ddychwelyd i'r gymuned.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael ar Ward F, gan gynnwys gwibdeithiau i gael hufen iâ a phrydau bwyd. Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw fod digon o weithgareddau ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd staff therapi galwedigaethol hefyd yn ystyried therapïau amgen a gweithgareddau i gleifion. Roedd llawer o ddeunydd crefft, llyfrau, papurau newydd a DVDau ar y ward. Dywedodd un claf wrthym ei bod yn ymuno â llawer o weithgareddau ar y ward a'i bod wedi dechrau gwneud addurniadau

Nadolig yn ddiweddar. Roedd hi hefyd yn mwynhau gwau, coginio a mynd allan.

Mewn cyferbyniad â hyn, ni welsom weithgareddau'n digwydd ar Ward Celyn ar adeg ein hymweliad, ac eithrio rhai cleifion a oedd yn gwrando ar gerddoriaeth. Gwnaeth trafodaethau â'r staff dynnu sylw at y ffaith nad oedd cyfraniadau o ran therapi galwedigaethol neu seicoleg. Roedd gwasanaeth cyfeillio ar waith, a dywedodd y staff fod cleifion yn cael ymwelwyr i'r ward. Mae teuluoedd dau o'r cleifion yn mynd â nhw allan, tra bod cleifion eraill yn cael cynnig gweithgareddau sy'n cynnwys posau jig-so, gemau dal peli, canu, gwyllo'r teledu, a thriniaethau harddwch. Mae triniwr gwallt yn ymweld â'r ward yn rheolaidd.

Roedd cleifion ar Ward Tegfan yn cwyno eu bod wedi diflasu ac nid oedd digon o weithgareddau ar gael iddynt. Cwynodd un claf nad oedd modd iddo fynd allan oherwydd diffyg staff.

Dywedodd y cleifion ar Ward 4 bod cyfraniadau therapi galwedigaethol da ar y ward. Dywedodd rhai cleifion nad oedd pob un o'r sesiynau a gynigir yn fuddiol nac yn ennyn diddordeb pawb. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn gallu diflasu o ganlyniad i'r diffyg gweithgareddau ar y penwythnos.

Argymhelliad

Mae angen clustnodi therapi galwedigaethol ar gyfer pob ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gweithgareddau a therapi a fydd yn eu helpu i wella ac i gyflawni canlyniadau sy'n ystyrlon iddynt yn bersonol.

Gofal iechyd cyffredinol

Cynhaliwyd adolygiad o'r clinig ar Ward Celyn, a gwnaethom nodi rhai materion yn ymwneud â chyffuriau a reolir. Roedd rhai cyffuriau a reolir ar y gofrestr a oedd wedi cael eu rhoi i bobl, ond ni lofnodwyd amdanynt. Mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â'r clinig.

Argymhelliad

Mae angen cynnal adolygiad o'r gofrestr cyffuriau a reolir er mwyn sicrhau y llofnodir am gyffuriau sy'n cael eu rhoi i bobl.

Bwyd a maeth

Roedd ein gwaith arsylwi a'r adborth a gawsom gan gleifion a staff ynglŷn ag ansawdd, amrywiaeth a'r dewis o fwyd sy'n cael ei weini i'r cleifion yn amrywio ac yn anghyson ar draws yr holl wardiau.

Prin oedd y cleifion a'r staff a wnaeth sylwadau cadarnhaol am y bwyd sy'n cael ei weini yn yr ysbyty. Dywedodd rhai cleifion a staff a gafodd cyfweiliad gennym ar Ward Heddfan fod meintiau dogn yn dda ac yn weddol hael. Darperir ar gyfer gwyllo'r teledu, a thriniaethau harddwch. Mae triniwr gwallt yn ymweld â'r ward yn rheolaidd.

Roedd cleifion ar Ward Tegfan yn cwyno eu bod wedi diflasu ac nid oedd digon o weithgareddau ar gael iddynt. Cwynodd un claf nad oedd modd iddo fynd allan oherwydd diffyg staff.

Dywedodd y cleifion ar Ward 4 bod cyfraniadau therapi galwedigaethol da ar y ward. Dywedodd rhai cleifion nad oedd pob un o'r sesiynau a gynigir yn fuddiol nac yn ennyn diddordeb pawb. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn gallu diflasu o ganlyniad i'r diffyg gweithgareddau ar y penwythnos.

Argymhelliad

Mae angen clustnodi therapi galwedigaethol ar gyfer pob ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gweithgareddau a therapi a fydd yn eu helpu i wella ac i gyflawni canlyniadau sy'n ystyrlon iddynt yn bersonol.

Gofal iechyd cyffredinol

Cynhaliwyd adolygiad o'r clinig ar Ward Celyn, a gwnaethom nodi rhai materion yn ymwneud â chyffuriau a reolir. Roedd rhai cyffuriau a reolir ar y gofrestr a oedd wedi cael eu rhoi i bobl, ond ni lofnodwyd amdanynt. Mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â'r clinig.

Argymhelliad

Mae angen cynnal adolygiad o'r gofrestr cyffuriau a reolir er mwyn sicrhau y llofnodir am gyffuriau sy'n cael eu rhoi i bobl.

Prin oedd y cleifion a'r staff a wnaeth sylwadau cadarnhaol am y bwyd sy'n cael ei weini yn yr ysbyty. Dywedodd rhai cleifion a staff a gafodd cyfweiliad gennym ar Ward Heddfan fod meintiau dogn yn dda ac yn weddol hael. Darperir ar gyfer dewisiadau deietegol a chrefyddol penodol. Gwnaeth gwaith arsylwi a wnaed

yn ystod ein hymweliad dynnu sylw at y ffaith bod y cleifion yn mwynhau'r pryd bwyd ar y pryd, yn enwedig ar Ward Heddfan.

Roedd ein harsylwadau ar Ward Heddfan yn ystod amser cinio yn gadarnhaol. Roedd yn dda nodi bod amser cinio yn cael ei gadw'n ddigynnwrf heb unrhywbeth i darfu ar y cleifion. Roedd y byrddau wedi eu gosod ac roedd cadeiriau'r ystafell fwyta'n briodol ar gyfer y byrddau. Cafodd y pryd bwyd ei weini gan nyrs gofrestredig, ac roedd gan y cleifion ddewis o dri phryd bwyd. Cafodd y cleifion a oedd angen cymorth eu cynorthwyo gan nyrs a eisteddodd gyda'r claf. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a gafodd ei weini, ac roedd ein gwaith arsylwi'n dangos bod y bwyd yn dwym ac i'w weld yn flasus.

Roedd diffyg dewis ac amrywiaeth yn faterion mawr yn yr adborth a gafwyd gan y cleifion a'r staff, ac roedd wardiau a oedd yn cynnwys Ward Celyn a Ward 4 yn cwyno bod yr un prydau neu brydau tebyg yn cael ei gweini'n rheolaidd. Dywedodd y staff fod briwgig a llysiau'n cael eu gweini llawer ar Ward Celyn. Yn ogystal, dywedodd y cleifion a'r staff wrthym fod yr un pryd bwyd yn aml yn cael ei weini am ginio a swper. Dywedodd y cleifion ar Ward 4 fod bwyd megis salad yn aml yn dod gyda chig o fewn yr un pryd, felly byddai'r bwyd yn cael ei gymysgu â chig. Ni fyddai hyn yn briodol i gleifion sy'n llysieuwyr. Dywedodd y cleifion hefyd mai'r opsiwn halal oedd cyri bob amser bwyd. Soniodd y cleifion a'r staff ar Ward F am gynifer y prydau cig moch a oedd yn cael eu hanfon i'r ward, er gwaethaf y ffaith bod y cleifion wedi nodi nad oeddent yn eu hoffi. Gwnaeth y cleifion sylwadau hefyd ynghylch y diffyg opsiynau i llysieuwyr a'r saladau a oedd yn cael eu gweini.

Pan oeddent yn gwneud dewisiadau, dywedwyd wrthym mai anaml yr oeddent yn cael y pryd bwyd y gwnaethant ei ddewis. Mae Ward Tegfan yn cael llawer o wastraff oherwydd nid yw'r cleifion yn derbyn y bwyd maent wedi ei archebu ac maent yn gwrthod yr opsiwn/opsiynau amgen. Yn ystod ein hymweliad, gwelwyd prydau heb eu cyffwrdd yn cael eu taflu. Cwynodd cleifion Ward F a Ward Celyn hefyd ynglŷn â'r ffaith nad oeddent yn derbyn y bwyd yr oeddent yn ei archebu o'r fwydlen.

Fe'n hysbyswyd bod y fwydlen yr un peth bob wythnos. Caiff bwyd ei baratoi ymlaen llaw a'i ddosbarthu wedi'i bacio o Ysbyty Singleton. Mae'r bwyd yn cyrraedd Cefn Coed ac yn cael ei aildwymo a'i gludo i'r wardiau ar drolïau bwyd. Dywedodd y staff wrthym fod yn rhaid iddynt ddarllen y labeli ar y bwyd sydd wedi'i bacio er mwyn darganfod beth yw'r pryd bwyd. Derbyniwyd llawer o gwynion gan gleifion a staff ynghylch tymheredd y bwyd. Dywedodd rhai ei fod yn cyrraedd yn gynnes ond ei fod yn mynd yn oer yn gyflym iawn. Y teimlad

cyffredinol ymhlith y cleifion a'r staff yw bod y bwyd wedi gwaethygu ers i'r cyfleusterau arlwygo ar y safle gau.

Roedd diodydd a byrbrydau ar gael yn hawdd ar y wardiau, ac roedd sgwash, ffrwythau, bara a sprediau ar gael i'r cleifion. Roedd eithriadau, fodd bynnag, ac adeg ein hymweliad, nid oedd y cyfleusterau te a choffi yn gweithio ar Ward 4. Roedd y staff yn berwi dŵr mewn sosbannau nes bod staff cynnal a chadw yn dod i atgyweirio'r cyfleusterau. Yn ystod ein hymweliad nos, nid oedd bara ar gael ar Ward Celyn er mwyn rhoi byrbrydau i'r cleifion. Mae gan Ward Tegfan amserlen ar waith i weini diodydd poeth, a symudwyd y peiriant dŵr i'r gegin dan glo gan fod un claf yn yfed gormod, ac o ganlyniad i hyn nid oedd yn hawdd i'r cleifion eraill gael dŵr.

Nid oedd yn hawdd gweld deietegydd, gydag ond ychydig neu ddim cyfraniad ganddynt. Dywedodd y staff fod negeseuon wedi cael eu gadael yn Ysbyty Singleton, ond roedd yn rhaid aros yn rhy hir i gael galwad yn ôl. Mae cael mynediad at y disgyblaethau sydd eu hangen i gefnogi deiet a gofal maethol y cleifion yn hanfodol, ac mae angen iddo fod ar gael iddynt yn hawdd.

Gwelsom amser pryd bwyd ar Ward Celyn, a daethom i'r casgliad fod angen gwerthuso'r lefelau staffio ar gyfer amserau pryd bwyd. Ar adeg ein hymweliad, roedd angen cymorth ar 13 o blith 17 o gleifion gyda'u bwyd. Roedd y ward yn ffodus bod ganddi dri myfyriwr nyrsio ar ddyletswydd i helpu gyda'r cleifion hyn. Heb y myfyrwyr nyrsio, a chyda'r lefelau staffio ar y lefel lleiaf, roedd y staff dan bwysau mawr.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o'r bwyd a ddarperir i'r cleifion. Roedd ansawdd, amrywiaeth, dewis, tymheredd a'r profiad bwyta i'r cleifion yn amrywio, ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

Mae angen cynnal adolygiad o'r cyfleusterau dŵr poeth, yn enwedig ar Ward 4, er mwyn sicrhau bod gan staff a chleifion ffordd ddiogel o wneud diodydd poeth.

Mae angen adolygu a gwella'r trefniadau o ran mynediad at ddeietegwyr er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y deiet a'r gofal maethol sydd ei angen.

Rhaid i gleifion sydd ag angen cymorth yn ystod amserau bwyd gael eu cynorthwyo'n llawn. Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod digon o staff ar gael i gynorthwyo'r cleifion yn ystod amserau bwyd.

Hyfforddiant

Roeddem yn falch o nodi bod gan y rhaglen hyfforddiant ofynnol ar gyfer y staff lefelau presenoldeb da ar draws yr holl wardiau y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd ystadegau a gynhyrchwyd o'r Cerdyn Sgorio Perfformiad yn dangos bod hyfforddiant gofynnol ers 2012 wedi cynyddu'n sylweddol, a'r ystadegyn isaf yn 2012 oedd 12% o gymharu â 80% yn 2014. Mae gan bob rheolwr ward gyfrifoldeb dros fonitro a gosod aelodau staff ar y sesiynau hyfforddiant sydd eu hangen arnynt. Darperir hyfforddiant ar ffurf rhaglenni e-ddysgu a/neu hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, yn ddibynnol ar y cwrs.

Dywedodd y staff wrthym am yr anawsterau a gawsant o ran cael staff i wneud yr hyfforddiant cynnal bywyd gofynnol, ac roedd y cofnodion hyfforddiant a archwiliwyd gennym wedi cadarnhau bod angen i nifer uchel o staff ddiweddarau eu hyfforddiant yn y maes penodol hwn. Roedd y materion a nodwyd fel rheswm dros yr oedi yn cynnwys diffyg hyfforddwyr a lleoedd ar y cwrs.

Crybwyllwyd hyfforddiant codi a chario hefyd gan lawer o staff fel enghraifft o hyfforddiant a oedd ar gael yn y gorffennol ond a ddaeth i ben o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol. Mae hwn yn faes hyfforddiant y mae staff yn ei ystyried yn hanfodol i'w swydd. Mae'n hanfodol bod y bwrdd iechyd yn datrys y broblem o ran hyfforddiant cynnal bywyd a'i fod yn ystyried hyfforddiant codi a chario cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol.

Nodwyd bod cyfleoedd i'r staff gael hyfforddiant ychwanegol/allanol. Cafodd yr holl weithwyr cymorth gofal iechyd ar Ward Heddfan gyfle i wneud cwrs dementia dros 11 o wythnosau. Siaradodd y staff a wnaeth fynychu'r cwrs yn ffafriol ynghylch ei gynnwys a'i berthnasedd i'w swydd. Mae staff Ward Heddfan hefyd yn darparu eu hyfforddiant eu hunain, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac sy'n canolbwyntio ar syniadau ac arferion cyfredol ym maes gofal dementia. Rhaid canmol y dull arloesol hwn, ac mae posibilrwydd o'i gyflwyno i wardiau eraill.

Cadarnhaodd y mwyafrif helaeth o'r staff y gwnaethom siarad â nhw, yn ogystal â'r ffeiliau a archwiliwyd gennym, fod arfarniad blynyddol wedi digwydd. Fodd bynnag, roedd ychydig iawn neu ddim tystiolaeth bod goruchwyllo'n digwydd. Dywedodd rhai staff nyrsio wrthym y byddent yn ceisio cael hyd i oruchwyliaeth ar gyfer eu hunain ac yn cofnodi'r nodiadau a wnaethant mewn trafodaethau. Dywedodd aelodau staff eraill wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw oruchwyliaeth o gwbl ers gweithio yn yr ysbyty, ac roedd rhai aelodau staff wedi gwneud dros 15 mlynedd o wasanaeth. Mae rhai wardiau'n gwneud ymarfer myfyriol mewn grwpiau, ac maent yn ei ddefnyddio fel math o oruchwyliaeth. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau goruchwyllo ffurfiol ar waith, a dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod taer angen hyn.

Gwnaethom adolygu ffeiliau cyflogaeth deg aelod o staff dros ddwy ward, a gwnaethom nodi nad oedd y wybodaeth yr oedd y ffeiliau'n ei chynnwys yn gyson. Roedd rhai ffeiliau'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gyflogaeth gan gynnwys ffurflenni cais, swydd ddisgrifiadau, nodiadau o gyfweiliadau, geirdaon, a contract, tra bod ffeiliau eraill yn denau iawn ac yn cynnwys ychydig iawn o wybodaeth neu ddim byd. Yn benodol, roedd un ffeil a welsom heb contract, geirdaon na ffurflenni cais.

Roedd yn anodd dod o hyd i bethau yn y ffeiliau a adolygwyd. Yn gyffredinol, roedd y wybodaeth wedi'i gwasgaru drwy'r ffeil, ac, fel arfer, roedd yn cael ei gosod ar ben y darn olaf o ohebiaeth, ac felly roedd yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth oedd ei hangen. Mae angen i'r ffeiliau staff gael eu harchwilio er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth am gyflogaeth yn cael ei chynnwys yn y ffeil a bod rhanwyr yn cael eu defnyddio i'w ffeilio, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei chadw ynghyd.

Nid oedd tystiolaeth o'r system sydd ar waith ar gyfer adnewyddu archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer gweithwyr cyflogedig presennol. Oherwydd cyfyngiadau ariannol, fe'n hysbyswyd mai dim ond ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phlant y byddai'r bwrdd iechyd yn adnewyddu gwiriadau DBS yn rheolaidd. Gan fod y grŵp cleifion yn Ysbyty Cefn Coed yn agored iawn i niwed, roedd yn siomedig gweld cyn lleied yr oedd y gwiriadau hyn yn cael eu hadnewyddu. Er bod unrhyw staff newydd neu unrhyw aelod o staff sy'n symud i swydd wahanol yn cael gwiriad DBS, nid yw'r gwiriadau ar gyfer staff sy'n aros mewn swydd am gyfnod o amser yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd. Mae angen adolygu'r arfer hwn, ac mae angen i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod yr holl staff sy'n gofalu am gleifion iechyd meddwl yn ddiogel i wneud hyn.

Roedd morâl ymhlith y staff yn arbennig o isel mewn rhai rhannau o'r ysbyty. Roedd y staff yn cwyno am y diffyg gwybodaeth a chyfathrebu, yn enwedig ynghylch cynlluniau ar gyfer cau a symud wardiau. Roedd trafodaethau â'r staff yn awgrymu bod negeseuon a phenderfyniadau gan yr uwch reolwyr yn newid yn rheolaidd. Roedd y staff yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo.

Argymhellion

Mae angen mynd i'r afael â'r anhawster o ran staff yn mynychu'r cwrs cynnal bywyd gofynnol fel mater o frys.

I'r staff sy'n codi a symud cleifion yn aml, mae angen darparu hyfforddiant codi a chario er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Mae angen sefydlu, cofnodi ac ymsefydlu goruchwyliaeth staff reolaidd ar gyfer yr holl staff.

Mae angen cynnal adolygiad o holl ffeiliau'r staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ynddynt yn gyson â pholisïau recriwtio a chadw Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yn ogystal, mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae'r ffeiliau staff wedi eu trefnu er mwyn gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch.

Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod yr holl staff sy'n gweithio gyda grŵp cleifion sy'n agored i niwed yn ddarostyngedig i'r holl wiriadau gofynnol er mwyn i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith.

Rhaid ymchwilio i'r rhesymau dros y morâl isel ymhlith y staff ac yna rhoi strategaeth a chynllun gwella ar waith.

Llywodraethu

Amlygodd ein hymweliad bryderon o ran ansawdd a diogelwch trefniadau llywodraethu a phrosesau archwilio Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac o ran staffio a chynnal a chadw yn benodol. Mae'r adroddiad yn amlygu ein pryderon am nifer y staff a oedd ar ddyletswydd ar adeg ein hymweliad. Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff, mae'n rhaid i'r bwrdd sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer adrodd ac uwchgyfeirio pryderon am lefelau staff yn rhagweithiol ac ymatebol.

Yn ogystal, mae angen gwelliant o ran nodi materion sy'n gallu effeithio ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Tynnodd ein hymweliad sylw at broblemau sylweddol yn ymwneud â chynnal a chadw a diogelwch personol, gan gynnwys drws tân a oedd ar glo a diffyg larymau diogelwch staff. Mae angen i'r bwrdd iechyd fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o reoli a monitro'r amser a gymerir i gywiro'r problemau hyn, gan sicrhau nad yw diogelwch staff a chleifion yn cael ei roi mewn perygl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n glir o ran dyfodol Ysbyty Cefn Coed a chynlluniau i adleoli gwasanaethau. Gwnaeth y staff sôn am ba mor aml y cafwyd newidiadau i'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan achosi camddealltwriaeth a diffyg hyder yn y cyfathrebiadau. Mae angen datblygu strategaeth ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r bwrdd gymryd camau i gyfathrebu, integreiddio a darparu cynlluniau ar gyfer y gweithlu yn llawn.

Roedd un pryder penodol a nodwyd yn ein hymweliad yn ymwneud â datgomisiynu gwelyau. Dywedwyd wrthym fod modd i glaf newydd ddefnyddio

gwely claf arall sydd yn absennol. O ganlyniad i hyn, os yw'r claf absennol yn dychwelyd i'r ysbyty, ni fyddai ei wely ar gael, ac felly byddai hyn yn arwain at gleifion yn cysgu yn y lolfâ neu ar ward arall. Mae'r arfer hwn wedi bod yn broblem reolaidd ar adegau i'r staff a'r cleifion, ac mae'n gwbl annerbyniol. Mae gofyn i'r bwrdd iechyd ddatblygu strategaeth er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

Argymhellion

Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff, mae'n rhaid i'r bwrdd sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer adrodd ac uwchgyfeirio pryderon am lefelau staff yn rhagweithiol ac ymatebol.

Mae angen i'r bwrdd iechyd fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o reoli a monitro'r amser a gymerir i gywiro problemau yn ymwneud â chynnal a chadw er mwyn sicrhau nad yw diogelwch staff a chleifion yn cael ei roi mewn perygl.

Mae angen datblygu strategaeth ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r bwrdd gymryd camau i gyfathrebu, integreiddio, a darparu cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau'r gweithlu yn llawn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno a gweithredu prosesau llywodraethu ac archwilio cadarn i fynd i'r afael â'r materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad.

Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol saith o'r cleifion dan gadwad, a oedd yn derbyn gofal ar bedair ward adeg ein hymweliad. Nodwyd y problemau nodedig canlynol:

- Yn gyffredinol, roedd y ffeiliau a archwiliwyd yn cynnwys tystiolaeth dda o graffu meddygol a gweinyddol
- Yn gyffredinol, roedd y ffeiliau'n drefnus, gan helpu staff y ward i gyrchu gwybodaeth am statws cadw claf

Asesu cleifion

Mewn rhai o'r ffeiliau cleifion a welsom, canfuom nad oedd yn glir ar yr olwg gyntaf beth oedd statws cadw'r cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Absenoldeb Adran 17

Roedd absenoldeb Adran 17 yn cael ei rheoli'n dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o ffurflenni hen yng nghofnodion y cleifion. Gallai hyn ei wneud yn anodd i'r staff a leolir ar y ward i nodi pa gyfnod o absenoldeb oedd y mwyaf diweddar a pha un oedd ag awdurdodiad dilys.

Argymhellion

Dylai ffeiliau cleifion a leolir ar y ward nodi statws cyfredol y claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn glir er mwyn i'r staff gael gwybodaeth fanwl gywir sy'n hawdd ei chyrraedd.

Yng nghofnodion ward y claf, dylid nodi'n glir bod hen bapurau absenoldeb Adran 17 wedi cael eu canslo.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal, gan nodi bod y canlynol wedi eu hepgor:

- Ar Ward Celyn a Ward 4, ni chafodd safon Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) ei manylu na'i mewnbllannu. Ni chafodd ei diwedddaru'n rheolaidd, a dangosodd y staff ddryswch ynglŷn â'i defnyddio.
- Roedd diffyg cydgysylltwyr gofal mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol.
- Ar rai wardiau (Ward 4 a Ward Tegfan), roedd diffyg gwybodaeth yn cael ei harddangos ynglŷn â gwasanaethau eirioli.
- Cafodd lefelau arsylwi yn nogfennau cleifion ar Ward 4 eu cwblhau yn ôl-weithredol, ac ni lofnodwyd gwaith papur gan y staff.
- Roedd diffyg manylder yng nghynlluniau gofal ar Ward Celyn, yn benodol wrth ddisgrifio clwyfau a'r sefyllfa bresennol o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Ar Ward 4, nid oedd statws cadw na chanlyniadau absenoldeb Adran 17 yn glir.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o ddogfennau cynllunio gofal, gan roi sylw penodol i:

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddiwedddaru'n rheolaidd a bod gan y staff well ddealltwriaeth o ran sut i'w ddefnyddio

Dylid gwahodd cydgysylltwyr gofal i gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol

Dylai gwasanaethau eirioli gael eu harddangos yn glir ym mannau'r cleifion

Mae angen i waith papur arsylwi gael ei gwblhau mewn da bryd ac nid yn ôl-weithredol

***Dylai llofnodion y staff fod yn bresennol ar yr holl waith papur
angenrheidiol, lle y bo'n briodol***

***Dylai cynlluniau gofal roi digon o fanylion i sicrhau bod gwybodaeth
gynhwysfawr ar gael.***

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Cefn Coed yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Abertawe Bro Morgannwg

Practis: Ysbyty Cefn Coed

Dyddiad yr arolygiad: 17 – 20 Tachwedd 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Nodwyd nifer o faterion amgylcheddol yn ystod ein hymweliad, ac mae angen gweithredu yn eu cylch. Mae angen rhoi sylw ar unwaith i'r wardiau y bwriedir iddynt gael eu datgomisiynu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr amgylcheddau'n addas at y diben o ddiwallu anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Ni ddylai defnyddwyr gwasanaeth presennol orfod goddef amgylchedd gwael o ganlyniad i gynlluniau i ddatgomisiynu yn y dyfodol.	Mae'r bwrdd iechyd, fel rhan o'i agenda moderneiddio, wedi bod yn gefnogol i'r angen i ddarparu cyfleusterau modern a adeiladwyd i'r pwrpas, yn enwedig yn lle'r hen lety Edwardaidd yn Ysbyty Cefn Coed. Mae rheolwr yr ysbyty, mewn cydweithrediad ag uwch gynrychiolwyr y gyfarwyddiaeth a'r bwrdd iechyd, wedi llunio cynnig sy'n ystyried defnyddio'r gofod clinigol mwyaf priodol yn unol â'r broses ddatgomisiynu. Sefydlwyd Grŵp Llywio Gwella Gwasanaethau a Thîm Phrosiect Datgomisiynu er mwyn gwneud y penderfyniadau sydd eu hangen, ac i	Rheolwr Cyffredinol Rheolwr yr Ysbyty	Yn parhau, yn unol â chynigion sy'n gysylltiedig â'r broses ddatgomisiynu (dyddiad dechrau amcangyfrifedig mis Ebrill 2015)

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		gymeradwyo'r newidiadau hynny sy'n ymwneud â'r broses drosglwyddo ffisegol a'r materion gweithredol cysylltiedig. (Mae copi o'r cylch gorchwyl wedi'i atodi fel Atodiad 1.)		
	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gwella i AGIC. Dylai amlinellu'n glir sut y bydd y materion yn ymwneud â'r amgylchedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn cael eu cywiro er lles y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd.	Mae'r rheolwr yr ysbyty wedi paratoi Papur Datgomisiynu Clinigol, ac mae hyn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. (Mae copi o'r ddogfen hon wedi'i atodi fel Atodiad 2.) Mae cynllun gwella cynnal a chadw sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad AGIC ynghlwm (Atodiad 3).	Rheolwr Cyffredinol Rheolwr Cyffredinol	Dyddiad dechrau amcangyfrifedig 2015 Mawrth 2015
	Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod y cleifion a'r staff ar bob ward yn ddiogel, a bod y gofal a ddarperir yn ddigonol.	O ran Gwasanaethau Pobl Hŷn, cafwyd cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ran gwella lefelau staffio, o ganlyniad i fuddsoddiadau yn sgil ad-drefnu'r gwasanaeth. Mae'r bwrdd iechyd yn cyflymu'r cynlluniau hyn drwy wneud cynnydd o ran recriwtio 17 o staff cyfwerth ag amser llawn Band 5 ar draws y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, a bydd hyn yn golygu y bydd nyrsys cymwys ychwanegol ar draws clystyrau o ddwy neu dair ward. Hysbyswyd y swyddi hyn o 8 Rhagfyr 2014. Hyd yn hyn, recriwtiwyd 8.9 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd	Rheolwr Gwasanaethau i Bobl Hŷn Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	8 Rhagfyr 2014 – diwedd Mawrth 2015 Rhagfyr 2014 – Mai 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Meddwl yn disgwyl recriwtio'r nifer llawn o staff pan fydd y cohort nesaf o staff sydd newydd gymhwyso ar gael yn y gwanwyn. Wrth ddisgwyl i'r broses recriwtio a amlinellir uchod gael ei gorffen, gwneir y camau gweithredu canlynol: Bydd y tair uned asesu yn ategu staffio yn y nos gyda gweithiwr cymorth nyrsio Band 2 ychwanegol. Chwilir am staff dros dro ar hyn o bryd er mwyn gwella staffio ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn Ysbyty Cefn Coed gan ddwy nyrs iechyd meddwl gofrestedig. Mae asesiadau risg o'r holl wardiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwyr Gwasanaethau Clinigol a'u huwchgysylltu lle y bo angen i'r Pennaeth Nyrsio, er mwyn sicrhau y gwneir camau gweithredu priodol. DS: O ganlyniad i'r cynlluniau datgomisiynu ar safle Ysbyty Cefn Coed, bydd y tair ward asesu bresennol yn cael eu cyfuno'n ddwy ward, gan ddechrau ym mis Ebrill 2015. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â phwysau a diffygion eraill yn	Pennaeth Nyrsio Rheolwr Cyfferdinol	Yn syth Yn syth Yn parhau Ebrill 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		ymwneud â staffio ar y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn Ysbyty Cefn Coed. O ran Gwasanaethau i Oedolion, mae rheolwr y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion wedi hysbysu y bydd yn cynnal adolygiad ar draws y gyfarwyddiaeth o sefydliadau nyrsio yn y Gwasanaeth Cleifion Mewnol Acíwt drwy gydol y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl. Mae adolygiadau llawn ar draws y gyfarwyddiaeth gyfan wedi nodi bod lefelau staffio a feincnodwyd ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion ar hyn o bryd yn y GIG ar y pwynt canol ar draws y 66 o sefydliadau yn yr archwiliad. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl hefyd yn cymryd rhan mewn peilot cenedlaethol ar ran Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio o ran aciwtedd nyrsio a llwyth gwaith mewn gwasanaethau cleifion mewnol yn eu cyfanrwydd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain trwy'r Grŵp Cyngori Uwch-nyrsys Cymru Gyfan. Cyflwynwyd adroddiad i Fwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd PABM. Mae papur i'r Prif Swyddog Nyrsio'n cael ei baratoi gan Grŵp Cyngori Uwch-nyrsys Cymru Gyfan ar gyfer cyfarfod Mawrth/Ebrill i wneud penderfyniadau cenedlaethol.	Pennaeth Nyrsio	Mawrth 2015 Ebrill 2015 ymlaen

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Mae angen i'r bwrdd iechyd ddarparu larymau staff/personol i'r holl staff sydd ar ddyletswydd. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y larymau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio	Mae'r nifer cywir o larymau personol bellach wedi cael eu dosbarthu i staff y ward, a hysbyswyd rheolwyr y ward y dylid eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio. O ran unedau Gwelfor a chamu i lawr, mae cydgysylltydd diogelwch penodedig yr uned neu'r dirprwy yn cynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol i weld a yw'r system larymau'n gweithio.	Rheolwr y ward	Yn syth
	Mae angen cynnal adolygiad o ddiogelwch yr ysbyty er mwyn sicrhau bod diogelwch staff yn cael ei gynnal drwy gydol yr ysbyty a'i dir.	Adolygiad o ddiogelwch ar y safle i'w gwblhau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddigwyddiadau, a'r effaith o ddiddymu'r switsfwrdd "y tu allan i oriau". Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried arferion mewn sefydliadau eraill o'r fath, ac unrhyw sgil-ffeithiau ariannol.	Pennaeth Gwasanaethau Cymorth	
	Mae angen dull amlddisgyblaethol o wneud cynlluniau gofal a thriniaeth i'r cleifion. Mae angen i'r holl ddisgyblaethau angenrheidiol fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys cydgysylltwyr gofal. Mae angen i'r cyfarfodydd gael agwedd holistaidd at ofal a thriniaeth claf, felly dylai'r bwrdd iechyd roi trefniadau ar waith i sicrhau hyn.	Mae cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar adferiad a chanlyniadau yn rhan annatod o'r athroniaeth gofal. Mae gwaith tîm amlddisgyblaethol yn elfen hanfodol o hyn. Mae'r holl ddisgyblaethau clinigol wedi ymrwymo i'r broses hon ac yn ymgysylltu â hi. Mae'r holl wardiau gofal heb ei drefnu ar draws y gyfarwyddiaeth yn cynnal Cyfarfod Cynllunio Rhyddhau Amlddisgyblaethol wythnosol (Tîm Amlddisgyblaethol), sy'n ystyried llwybr rhyddhau	Rheolwyr y Ward Rheolwyr Gwasanaethau Clinigol	Yn parhau

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		pob claf. Ymhlith y rhai sy'n bresennol yn y cyfarfodydd hyn, mae rheolwyr y Tîm Integredig a chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, sy'n sicrhau y mabwysiadir dull cydweithredol o ryddhau cleifion.		
	Mae angen rhoi sylw i'r meysydd a nodwyd yn yr adran hon ar unwaith. Ni ddylai preifatrwydd ac urddas unrhyw gleifion gael eu peryglu. Mae angen craffu rheolaidd i sicrhau y caiff gwelliant yn y maes hwn ei hybu a'i fod yn effeithiol.	Mae adran amgylcheddol yn yr archwiliadau sicrhau ansawdd sy'n mynd i'r afael ag unrhyw risgiau amgylcheddol i urddas. Mae'r Grwpiau Gwasanaeth yn ystyried ei chanlyniadau'n wythnosol. Wedi i Ward Tegfan gael ei datgomisiynu ar ddiwedd mis Mawrth 2015, bydd y cleifion yn cael eu symud i lety mwy addas ar y Ward Gofal Dwys Seiciatrig yn Ysbyty Tywysoges Cymru.	Rheolwyr y Ward, Rheolwyr Gwasanaethau Clinigol	Ar unwaith ac yn parhau
	Mae angen clustnodi therapi galwedigaethol ar gyfer pob ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gweithgareddau a therapi a fydd yn eu helpu i wella ac i gyflawni canlyniadau sy'n ystyrlon iddynt yn bersonol.	Mewn lleoliadau ward sydd ag adnoddau digonol, mae'r ddarpariaeth therapi galwedigaethol wedi'i mewnbllannu o fewn y gofal, ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i'r cleifion, yn ogystal â gwella sgiliau a gallu'r timau amlddisgyblaethol. Mae gweithgareddau therapiwtig wedi eu hintegreiddio i fywyd bob dydd ar y ward, a defnyddir galwedigaethau fel ffordd o wella. Y rhain yw: Gwasanaethau Cymorth ac Ymyrraeth Ddwys, Gwelfor, Ward F, Wardiau 4 a 6. Yn y	Pennaeth Therapi Galwedigaethol	Ebrill 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		mannau hyn, mae presenoldeb therapi galwedigaethol a staff ar lefel cymorth therapi galwedigaethol yn golygu bod pobl ag anghenion galwedigaethol yn cael eu nodi'n gynnar, a cheir cyfraniadau sy'n fuddiol iddynt. Yn y wardiau eraill, mae'r Pennaeth Therapi Galwedigaethol wrthi'n gorffen papur sy'n nodi'r staff therapi galwedigaethol ychwanegol sydd eu hangen i wella'r gwasanaeth ar y Wardiau i Bobl Hŷn yn Ysbyty Cefn Coed.		
	Mae angen cynnal adolygiad o'r gofrestr cyffuriau a reolir er mwyn sicrhau y llofnodir am gyffuriau sy'n cael eu rhoi i bobl	Mae'r rheolwr Gwasanaethau Clinigol wedi cynnal adolygiad mewn cydweithrediad â rheolwyr wardiau i sicrhau bod yr holl feddyginiaeth a reolir yn cael ei chofnodi'n briodol unwaith iddi gael ei gweinyddu, yn unol â'r prosesau a'r polisiau. Cynhelir hapwiriadau ar draws y safle sy'n nodi unrhyw wallau o ran gweinyddu meddyginiaeth, ac mae'r Adolygiad PWYNT Iechyd Meddwl (Fframwaith Sicrhau Ansawdd Nyrsio Iechyd Meddwl) yn gwneud hyn hefyd. Caiff pob gwall o ran gweinyddu meddyginiaeth ei nodi drwy DATIX ac yna ei fflagio i'r rheolwr Gwasanaethau Clinigol priodol a'r Pennaeth Nyrsio Cynorthwyol i'w drafod yn	Rheolwr Gwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn Pennaeth Nyrsio Cynorthwyol	Yn syth

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		llawn yng Nghyfarfod Diogelwch Meddyginiaeth nesaf y gyfarwyddiaeth. Gweithredir ar unwaith, gan gynnwys adborth, myfyrio, a chamau disgyblu os oes angen.		
	Mae angen cynnal adolygiad o'r bwyd a ddarperir i'r cleifion. Roedd ansawdd, amrywiaeth, dewis, tymheredd a'r profiad bwyta i'r cleifion yn amrywio, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Mae llawer o gleifion yn aros am gyfnod hir, ac efallai y byddai'n fwy priodol i gael ffordd leol o ddarparu'r gwasanaeth arlwygo i safle bach, yn hytrach na system swmp o fwyd wedi'i goginio ymlaen llaw, oherwydd nid oes modd rheoli'r amrywiaeth neu ddewis personol llawer.	Penodwyd Swyddog Cymorth Bwyd yn Ysbyty Cefn Coed, a'i gyfrifoldeb yw sicrhau y cynhelir safon dda o ran bwyd. At hynny, mae cydweithwyr o'r adran arlwygo yn ymweld â'r wardiau bob pythefnos i gynnal profion bwyd ac i siarad â chleifion a staff er mwyn cael adborth ar ansawdd y bwyd. Pe bai angen i staff y ward gael dewis amgen i'r hyn sydd ar y fwydlen, mae modd iddynt gysylltu â'r adran arlwygo i drefnu hyn. Mae adran deietig y bwrdd iechyd yn gwneud dadansoddiad maethol o'r holl fwyd. Bydd y Swyddog Cymorth Bwyd yn cynnal adolygiad o'r gwasanaeth arlwygo.	Rheolwr Gwasanaethau Arlwygo Rheolwr y Ward Swyddog Cymorth Bwyd o dan arweiniad Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth	31 Mai 2015
	Mae angen cynnal adolygiad o'r cyfleusterau dŵr poeth, yn enwedig ar Ward 4, er mwyn sicrhau bod gan staff a chleifion ffordd ddiogel o wneud diodydd poeth.	Mae cyfleusterau te a choffi yn ôl ar Ward 4 eto	Rheolwr y ward Adran Ystadau	Wedi'i gwblhau

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Mae angen adolygu a gwella'r trefniadau o ran mynediad at ddeietegwyr er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y deiet a'r gofal maethol sydd ei angen.	Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio deietegydd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl.	Pennaeth Maetheg a Deieteg	30 Ebrill 2015
	Rhaid i gleifion sydd ag angen cymorth yn ystod amserau bwyd gael eu cynorthwyo'n llawn. Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod digon o staff ar gael i gynorthwyo'r cleifion yn ystod amserau bwyd.	Fel y nodwyd gynt, mae'r bwrdd iechyd yn cyflymu'r cynlluniau i wneud cynnydd o ran recriwtio staff cymwys ychwanegol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.	Rheolwyr Gwasanaethau	Parhaus, gyda rhai camau gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o ran staffio
	Mae angen mynd i'r afael â'r anhawster o ran staff yn mynychu'r cwrs cynnal bywyd gofynnol fel mater o frys.	O ganlyniad i'r diffyg darpariaeth ar gyfer hyfforddiant arbenigol cynnal bywyd brys, mae'r holl fannau ar gyfer cleifion mewnol iechyd meddwl wedi cael asesiad risg o ran yr angen am hyfforddiant cynnal bywyd brys yn hytrach na chynnal bywyd sylfaenol. Mae gan nifer o fannau mewn ysbytai cyffredinol dosbarth fynediad at gyfleusterau brys llawn; nid oes gan ysbytai eraill fel Ysbyty Cefn Coed hyn. Mae safleoedd ar wahân ar draws y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn dibynnu ar alw gwasanaethau brys. Atodiad 4	Rheolwyr Gwasanaethau Pennaeth Nyrsio	Adolygiad presennol y bwrdd iechyd o'r tîm dadebru corfforaethol a'r ddarpariaeth hyfforddiant Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn monitro a chofnodi cydymffurfiaeth

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf wedi comisiynu adolygiad o'r tîm dadebru a'r ddarpariaeth hyfforddiant ar draws y bwrdd iechyd. Yn y cyfamser, mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl wedi argymhell y dylai o leiaf un aelod o staff â hyfforddiant cynnal bywyd brys fod ar ddyletswydd ar unrhyw adeg benodol. Caiff y ddarpariaeth hyfforddiant ei monitro drwy Ddangosyddion Nyrsio Iechyd Meddwl ar lefel y ward.		drwy Bwyllgor Llywodraethu a Rheoli Risg y Gyfarwyddiaeth.
	I'r staff sy'n codi a symud cleifion yn aml, mae angen darparu hyfforddiant codi a chario er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol.	Ar hyn o bryd, mae cydymffurfiaeth Iechyd Meddwl â hyfforddiant codi a chario yn 93.87%, ac mae hyn yn cydymffurfio'n llawn â disgwyliadau'r bwrdd iechyd. Caiff hyn ei fonitro gan ddefnyddio Metrigau Nyrsio Iechyd Meddwl (dangosyddion), ac mae'n rhan o'r adolygiad o berfformiad a wneir yn fisol gan y gyfarwyddiaeth gyda thîm gweithredol y bwrdd iechyd.	Rheolwr Gwasanaethau i Bobl Hŷn	31 Ebrill 2015
	Mae angen sefydlu, cofnodi ac ymsefydlu goruchwyliaeth staff reolaidd ar gyfer yr holl staff.	Nid yw Polisi Goruchwyllo a Llywodraethu Arfer y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl (Atodiad 5) wedi'i ymsefydlu'n llawn ym mhob maes ar draws y gyfarwyddiaeth. Yn dilyn cyflwyniad diweddar Polisi Goruchwyliaeth Glinigol y Bwrdd Iechyd, mae'r Pennaeth Nyrsio, drwy'r Fforwm Nyrsio	Pennaeth Nyrsio ac Arweinydd Hyfforddiant	Yn syth

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Proffesiynol, wedi amlygu'r angen i adfywio a sefydlu'r arfer hwn yn llawn ar draws y gyfarwyddiaeth. Mae cronfa ddata lawn o oruchwylwyr ar waith, ac mae llawer o staff yn defnyddio'r broses, ond nid pob un ohonynt. Mae ymdrechion ychwanegol yn cael eu gwneud i sicrhau bod pawb yn ei defnyddio'n fel mater o arfer. Mae rheolwyr y ward yn mynd i roi goruchwyliaeth glinigol reolaidd ar waith ar gyfer eu staff ward, sy'n ogystal â Gweithdrefn Adolygu Datblygiad Personol y Bwrdd Iechyd, a chedwir cofnod ysgrifenedig.	Rheolwr y ward	Yn syth
	Mae angen cynnal adolygiad o holl ffeiliau'r staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ynddynt yn gyson â pholisïau recriwtio a chadw Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yn ogystal, mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae'r ffeiliau staff wedi eu trefnu er mwyn ei wneud yn haws ddod o hyd i wybodaeth.	Bydd y ffordd y mae'r cofnod staff nyrsio wedi'i drefnu'n cael ei hadolygu drwy Grwpiau Gwasanaeth, gan ddilyn canllawiau eu cydweithwyr yn Adran y Gweithlu. Y nod yw ceisio gosod sylfaen ar gyfer arferion da o ran cadw cofnodion, gan sicrhau dilyniant a bod cynnwys y ffeil personél yn gyflawn a'u bod yn cael eu cadw'n drefnus.	Rheolwyr Gwasanaethau	31 Ebrill 2015
	Mae angen i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod yr holl staff sy'n gweithio gyda grŵp cleifion agored i niwed yn ddarostyngedig i'r holl wiriadau gofynnol er mwyn i'r bwrdd iechyd	Mae'n ofynnol i'r holl staff sydd newydd eu penodi neu'r rhai sy'n symud i wahanol swydd yn y bwrdd iechyd dderbyn archwiliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel amod o'r	Arfer cyfredol	

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	fod yn sicr bod gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith.	cynnig o waith. Mae'n ofynnol i'r holl staff ddatgan unrhyw broblemau neu bryderon yn ymwneud â'u hymddygiad, yn y gwaith neu'r tu allan, i'w rheolwr llinell ar unwaith yn rhan o'u contractau cyflogaeth. Byddai methiant i wneud hynny yn cael ei reoli'n unol â pholisi disgyblu'r bwrdd iechyd, a gallai arwain at gamau disgyblu, hyd at ac yn cynnwys diswyddiad. Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i ddilyn polisi GIG Cymru o ran adnewyddu archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei reoli ar sail Cymru gyfan oherwydd maint yr ymarfer a'r baich fyddai ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pe na bai dull cydgysylltiedig ar draws GIG Cymru, a'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses adnewyddu. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau'n cael eu llunio o ran y mater hwn, ac, wrth gwrs, byddwn yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw benderfyniad terfynol ar sut i ddatrys y mater hwn.	Cymru Gyfan	I'w gadarnhau, yn disgwyl diweddariad ar sail Cymru gyfan
	Rhaid ymchwilio i'r rhesymau dros y morâl isel ymhlith y staff ac yna rhoi strategaeth a chynllun gwella ar waith.	Yn dilyn Arolwg Staff y GIG 2013, sefydlodd y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl raglen o grwpiau ffocws ar draws y tri lleoliad i hybu cydweithio o	Rheolwr Gwasanaethau	Yn parhau, i'w adolygu ar ddiwedd mis

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		ran gwella bodlonrwydd staff. Fel proses, cafodd hon ei chroesawu a'i gwerthfawrogi gan y bobl a oedd yn bresennol, ac mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl wedi rhannu'r canfyddiadau hyn â'r grwpiau gwasanaeth perthnasol. O ganlyniad, cyflwynwyd fforymau staff agored, sesiynau holi ac ateb, ac ymweliadau â wardiau gan Dîm Uwch y Gyfarwyddiaeth o fewn mannau. (Mae papur sy'n amlinellu canlyniadau'r sesiynau hyn wedi'i atodi fel Atodiad 6.)		Ebrill 2014.
	Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff, mae'n rhaid i'r bwrdd sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer adrodd ac uwchgyfeirio pryderon am lefelau staff yn rhagweithiol ac ymatebol.	Mae System Adrodd Digwyddiadau Datix y bwrdd iechyd yn galluogi staff i godi pryderon uniongyrchol pe bai lefelau staffio yn cwmpo'n is na'r safon ofynnol. Gall rheolwr y ward ddwysau materion o'r fath trwy uwch reolwyr y gyfarwyddiaeth fel pryderon yn ymwneud â'r maes hwn, a chaiff staff dros dro ychwanegol eu neilltuo yn ôl y gofyn. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn cymeradwyo ac yn hyrwyddo Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad y bwrdd iechyd yn llawn, ac felly'n ceisio cyfathrebu ac ymateb i holl bryderon y staff sy'n gysylltiedig â gofal cleifion mewn amrywiaeth o ffyrdd, boed yn llafar neu'n ysgrifenedig. Darperir cymorth ar sail 24/7, a cheir cyswllt uwch ar-alwad y tu allan i	Rheolwr Gwasanaethau	Yn syth

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		oriau'r swyddfa os oes angen.		
	Mae angen i'r bwrdd iechyd fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o reoli a monitro'r amser a gymerir i gywiro problemau yn ymwneud â chynnal a chadw er mwyn sicrhau nad yw diogelwch staff a chleifion yn cael ei roi mewn perygl	Atgoffwyd holl staff y ward am weithdrefn y bwrdd iechyd ar gyfer adrodd gwallau, gan gynnwys mynd at y peiriannydd dyletswydd ar alwad y tu allan i oriau arferol. At hynny, rheolwr y ward i gymryd camau dilynol ac uwchgyfeirio i'r uwch reolwyr os oes angen, er mwyn ei atgyweirio o fewn 48 awr.	Rheolwyr y ward	Yn parhaus Gwneir cynnydd ar geisiadau cynnal a chadw heb eu cwblhau mewn Cyfarfodydd Cyswllt Cynnal a Chadw misol y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl.
	Mae angen datblygu strategaeth ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r bwrdd gymryd camau i gyfathrebu, integreiddio a darparu cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau'r gweithlu yn llawn.	Mae'r gyfarwyddiaeth a'i chydweithwyr corfforaethol wrthi'n gorffen cynllun datgomisiynu ar gyfer Ysbyty Cefn Coed sy'n ychwanegu at gynllun hirdymor a nodwyd o fewn Newid Gwasanaethau Iechyd Meddwl er Gwell, sef gosod cyfleusterau modern sy'n addas at y diben i oedolion a phobl hŷn, yn lle'r hen ystâd sydd ar ôl yr oes. Cadarnhawyd hyn yn 2013 mewn	Uwch Dîm Reoli a Thîm Gweithredol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Cynllun y cytunwyd arno ar gyfer datgomisiynu'r safle Mai 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		ymrwymiadau Iechyd Meddwl y cytunwyd arnynt ar y cyd gan y tri awdurdod lleol ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn ogystal â'r bwrdd iechyd. Wrth i'r cynllun datgomisiynu gael ei orffen, bydd strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff, ac asiantaethau partner. O ran cynlluniau ar gyfer darparu Gwasanaethau Asesu Acíwt i Bobl Hŷn eto, Ysbyty Singleton yw'r safle a ffefrir, a bydd hyn yn golygu y gellir lleoli gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn yr un lleoliad. Bydd hyn yn darparu amgylcheddau therapiwtig sy'n addas at y diben, gan gynnwys ystafelloedd sengl a mynediad at ddiagnosteg. Mae'r bwrdd iechyd eisoes wedi ymgynghori ar y cynnig i ganoli gwasanaethau asesu acíwt i oedolion ar safle Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Bydd y cynlluniau i ddatblygu'r ddau wasanaeth asesu newydd hyn yn ddibynnol ar lwyddo i gyflwyno achos busnes llawn i Lywodraeth Cymru.		
	Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno a gweithredu prosesau llywodraethu ac archwilio cadarn i fynd i'r afael â'r materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad.	Bydd gofyn i grwpiau gwasanaeth adolygu eu hystâd yn rheolaidd ac i uwchgyfeirio unrhyw faterion i'r grŵp rheoli risg yn y gyfarwyddiaeth, sydd wedi'i gadeirio gan y Rheolwr Cyffredinol.	Rheolwyr Gwasanaethau a'r Rheolwr Cyffredinol	Yn syth

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Dylai ffeiliau Deddf Iechyd Meddwl cleifion a leolir ar y ward nodi'n glir statws cyfredol y claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn i'r staff gael gwybodaeth fanwl gywir sy'n hawdd ei chyrraedd.	Bydd archwiliad 'ar y ward' o ffeiliau'r cleifion yn cael ei atgyfnerthu er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei chofnodi. Bydd clercod y ward yn adolygu'r ffeiliau'n fisol.	Rheolwr y ward	Ar unwaith ac yn parhau
	Yng nghofnodion ward y cleifion, dylid nodi'n glir bod hen bapurau absenoldeb Adran 17 wedi cael eu canslo.	Mae rheolwr y ward wedi nodi y bydd unrhyw ffurflenni absenoldeb Adran 17 sydd wedi cael eu diddymu neu eu newid yn cael eu marcio'n glir fel 'wedi canslo'.	Rheolwr y ward	Ar unwaith ac yn parhau
	Mae angen cynnal adolygiad o ddogfennau cynllunio gofal, gan roi sylw penodol i: Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a bod gan y staff well ddealltwriaeth o ran sut i'w ddefnyddio Dylid gwahodd cydgysylltwyr gofal i gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol Dylai gwasanaethau eirioli gael eu harddangos yn glir ym mannau'r cleifion Mae angen i waith papur arsylwi gael ei gwblhau mewn da bryd ac nid yn ôl-weithredol	Mae cyflwyno Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn gosod dyletswydd ar y bwrdd iechyd i sicrhau bod yr holl gleifion sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd meddwl eilaidd yn cael cynllun gofal a thriniaeth dilyys. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac yn seiliedig ar adferiad, ac fe'i datblygir drwy ymgynghori â'r defnyddiwr gwasanaeth. Datblygwyd rhestr wirio archwilio, ac mae hon ar waith. Cynhelir archwiliadau ansawdd gan reolwyr ward/tîm ar gynllunio gofal a thriniaeth. Datblygwyd cronfa ddata ganolog i gofnodi cydymffurfiaeth. Yn ogystal, caiff y maen prawf	Rheolwyr y Gwasanaethau	Monitro ar unwaith a pharhaus gan grwpiau gwasanaeth

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Dylai llofnodion y staff fod yn bresennol ar yr holl waith papur angenrheidiol, lle y bo'n briodol Dylai cynlluniau gofal roi digon o fanylion i sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael	hwn ei fesur fel rhan o ddatganiad perfformiad misol y gyfarwyddiaeth. Mae buddsoddiad y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl mewn setiau dysgu sy'n canolbwyntio ar adferiad yn helpu i wella'r elfen hanfodol hon o gynllunio gofal a thriniaeth.	Rheolwr Cyffredinol	Yn parahu